# Credydau Treth a ordalwyd

Cyllid & Tollau EM

| | |
|---|---|
| **Llinell Gyswllt Cymraeg** | **0845 302 1489** |
| Llinell Gymorth *Saesneg* | 0845 300 3900 |
| Minicom/Ffôn Testun *Saesneg* | 0845 300 3909 |

Credydau Treth Cyllid a Thollau EM
Gordaliadau rydych yn dadlau yn eu cylch
Tros y Bont
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9NB

Defnyddiwch y ffurflen hon os credwch na ddylai fod yn rhaid i chi dalu'n ôl y credydau treth a ordalwyd i chioherwydd eich bod wedi cwrdd â'ch cyfrifoldebau ond ni wnaethom ni eu cwrdd.

Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon os oes angen mwy o amser arnoch i dalu'r gordaliad neu os ydych am apelio yn erbyn penderfyniad ynglŷn â swm y credydau treth y mae gennych hawl iddynt. Ffoniwch y Llinell Gyswllt Cymraeg yn lle.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r gordaliad, ffoniwch y Llinell Gyswllt.

**Mae eich cyfrifoldebau'n cynnwys:**

- rhoi gwybodaeth gywir a ddiweddar
- dweud wrthym pan fydd eich amgylchiadau'n newid
- gwirio'r wybodaeth ynglŷn â'ch amgylchiadau fel y'u dangosir ar eich hysbysiadau o ddyfarniad ac i ddweud wrthym os oes rhywbeth o'i le, ar goll neu'n anghyflawn.
- gwirio bod eich taliadau'n cyd-fynd â'r symiau ac ar eich hysbysiadau o ddyfarniad ac i ddweud wrthym os nad ydynt.

**Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys:**

- rhoi'r cyngor cywir i chi
- cofnodi'n gywir a defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni
- newid eich dyfarniad, os yn briodol, o fewn 30 diwrnod y gwnaethom dderbyn gwybodaeth newydd
- defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni i dalu'r symiau cywir o gredydau treth i chi.

Rhaid i chi ddweud wrthym o fewn mis o dderbyn eich hysbysiad o ddyfarniad os oes unrhyw wybodaeth ar yr hysbysiad yn anghywir neu'n anghyflawn. Rhaid i chi ddweud wrthym hefyd ynghylch y rhan fwyaf o newidiadau o fewn un mis o'r newid.

## Eich manylion

1 Eich cyfenw

2 Eich enw(au) cyntaf

3 Eich Rhif Yswiriant Gwladol

4 A wnaeth y gordaliad rydych yn dadlau yn ei gylch ddigwydd o ganlyniad i gais ar y cyd?

Do ☐ Naddo ☐

## Manylion eich partner

5 Cyfenw eich partner

6 Enw(au) cyntaf eich partner

7 Rhif Yswiriant Gwladol eich partner

# Ynglŷn â'r gordaliad rydych y dadlau yn ei gylch

**8** Ym mha flwyddyn dreth, neu ym mha gyfnod y digwyddodd y gordaliad rydych yn dadlau yn ei gylch?
*Mae'r wybodaeth hon ar gael ar eich hysbysiadau o ddyfarniad neu unrhyw lythyron rydym wedi anfon atoch ynglŷn â'r gordaliad*

**9** A wnaethoch gysylltu â ni i ddweud wrthym:

- bod yr hysbysiad o ddyfarniad yn dangos amgylchiadau personol anghywir neu anghyflawn? Do ☐ Naddo ☐
- nad oedd eich taliadau'n cyd-fynd â'r rheini ar eich hysbysiad o ddyfarniad? Do ☐ Naddo ☐

**10** A ydych yn credu bod y gordaliad wedi digwydd oherwydd:

- ni wnaethom newid eich dyfarniad o fewn 30 diwrnod o pan wnaethoch ddweud wrthym ynghylch newid a olygodd gostyngiad yn eich taliadau? Do ☐ Naddo ☐
- gwnaethom gamgymeriad? Do ☐ Naddo ☐
- gwnaethom roi cyngor anghywir i chi? Do ☐ Naddo ☐

**11** Am bob blwch 'Do' rydych wedi ticio yng nghwestiynau 9 a 10, rhowch fanylion yma ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd, pryd ddigwyddodd hyn a phryd wnaethoch gysylltu â ni. Os oes angen mwy o le arnoch, parhewch ar ddalen ar wahân ac ysgrifennwch eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol ar y brig a'i hatodi i'r ffurflen hon.

| Dyddiad cyswllt (os yn hysbys) | Manylion |
|---|---|
| | |

**12** Efallai y bydd angen i chi roi mwy o wybodaeth i ni. Rhowch eich rhifau ffôn isod os cytunwch y gallwn eich ffonio.

Yn ystod y dydd

Symudol

**13** Llofnodwch a dyddiwch y ffurflen hon.

Llofnod

Dyddiad *DD MM BBBB*

Anfonwch y ffurflen hon i'r cyfeiriad a welir ar dudalen 1.
Byddwn yn atal y gordaliad rhag gael ei gasglu tra ein bod yn ystyried y mater.